# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2017

Amser: 09.01 - 10.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4370

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Tim Deere-Jones, Deisebydd<br>Peter Bryant, EDF Energy<br>Chris Fayers, EDF Energy<br>Stephen Roast, EDF Energy |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Claire O'Sullivan (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Wendy Dodds (Ysgrifenyddiaeth) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu - adnabyddiaeth a chefnogaeth

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y deisebydd ac i ofyn ei farn ar y materion a ganlyn:

- p'un a ddylid ychwanegu gwrthiselyddion at y rhestr o gyffuriau a dargedir i'w lleihau gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru; ac
- a ddylai cleifion ledled Cymru gael mynediad at Wasanaeth Cymorth Meddyginiaethau Rhagnodedig.

## 2.2 P-05-787 Achub Cenhedlaeth y Dyfodol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i:

- geisio cadarnhad y bydd trefniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yn y dyfodol, gan gynnwys cyllid, yn rhan o'r adolygiad o ymestyn hawliau a'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018; a
- gofyn am gymhariaeth o faint o arian a ddyrennir i bob awdurdod lleol ar gyfer gwaith ieuenctid drwy'r Asesiad Gwariant Safonol a faint o arian y mae pob awdurdod yn ei wario ar waith ieuenctid.

## 2.3 P-05-788 Cael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am:

- gopi o ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i lythyr manwl gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch statws Bagloriaeth Cymru; a
- chanfyddiadau'r adolygiad o Fagloriaeth Cymru sy'n cael ei gynnal gan Gymwysterau Cymru;

cyn ystyried cymryd camau pellach ynghylch y ddeiseb.

## 2.4 P-05-789 Adolygu cymorth i geiswyr lloches sy'n ymgymryd ag addysg bellach

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- aros am farn y deisebydd ar yr ymateb gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes cyn penderfynu ar unrhyw gamau pellach ynghylch y ddeiseb; ac

- ysgrifennu at Gyngor Ffoaduriaid Cymru i ofyn eu barn ar y materion a godwyd yn y ddeiseb i lywio trafodaethau'r Pwyllgor.

**P-05-790 Mynd i'r afael â chysgu ar y stryd**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i rannu'r pwyntiau ychwanegol a godwyd gan y deisebydd a cheisio barn y Gweinidog ar y materion hyn, yn ogystal â gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion y Gweithgor Cysgu ar y Stryd pan fyddant ar gael.

## 3 Sesiwn dystiolaeth 1 - P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Caerdydd.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tim Deere-Jones, y deisebydd.

## 4 Sesiwn dystiolaeth 2 - P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr EDF Energy.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniodd yr Aelodau y cynnig.

## 6 Trafod y sesiynau tystiolaeth blaenorol

Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a glywyd yn y sesiynau blaenorol, gan gytuno i wahodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd yn y flwyddyn newydd.